# JONES, RHYS GWESYN (1826 - 1901), gweinidog gyda'r Annibynwyr ac awdur

**Enw:** Rhys Gwesyn Jones
**Dyddiad geni:** 1826
**Dyddiad marw:** 1901
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Annibynwyr ac awdur
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Robert (Bob) Owen

Ganwyd yn Penywern, Abergwesyn, sir Frycheiniog, 4 Mai 1826. Ymaelododd yn 1840 gyda'r Annibynwyr yn eglwys Moriah a dechreuodd bregethu yno yn 1844. Bu'n byw yn Ffrwd-y-Fâl, gerllaw Llandeilo, ac yn Llanofer, cyn mynd i Goleg Aberhonddu yn 1847. Bu'n gweinidogaethu yn Rhaeadr Gwy (1851), Penybont-ar-Ogwr (1857), a Merthyr Tydfil (1859), ac yn ystod y blynyddoedd hyn ysgrifennai erthyglau i'r *Beirniad*, *Y Diwygiwr*, etc.

Ym mis Mai 1867 ymfudodd i U.D.A., i gymryd gofal dwy eglwys yn Utica, talaith Efrog Newydd; bu'n gweinidogaethu wedi hynny yn Petaluma, California (1879), a New York Mills (1883). Cyhoeddodd *Y Byd cyn Adda* (1858, ac argraffiadau eraill), *Esboniwr y Datguddiad ...* (Utica, 1867), *Courting, Marrying, and Living* (amryw argraffiadau), *Yr Eglwys Bur*, 1860, *Y Teulu Dedwydd* (Merthyr Tydfil, 1867, ac argraffiadau eraill), *Llithiau ar Epistol Iago* (Utica, 1874). Golygodd argraffiad o *Gweledigaethau y Bardd Cwsc* (Ellis Wynne) yn 1867. Gydag eraill dechreuodd sefydliad Cymreig y Bala, Powys Riley County, talaith Kansas. Bu farw 5 Medi 1901.

## Awdur

**Robert (Bob) Owen**, (1885 - 1962)

## Ffynonellau


*Hanes Cymry America* (1872), ii, 128-9

*The Cambrian*, 1901, 473-4; 1892, 97-9

*Cofiant Rhys Gwesyn Jones, D.D., Ll.D., Utica, New York* (Efrog Newydd 1902)


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 73050277

Wikidata: Q20734248

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu